Ysgol y Dderwen

Polisi e-ddiogelwch

Pwy fydd yn ysgrifennu ac yn adolygu'r polisi?

- Mae'r ysgol wedi penodi aelod penodol o'r staff fydd â'r cyfrifoldeb am e-Ddiogewlch. Bydd yn cydweithio â'r aelod o staff sydd â'r swyddogaeth am ddiogelu plant.
- Bydd y Polisi e-Ddiogewlch yn cael ei weithredu a'i adolygu yn flynyddol.
- Adolygir y Polisi gan ddisgyblion yr ysgol.

Addysgu a Dysgu

Pam fod defnyddio'r Rhyngrwyd yn bwysig?

- Diben defnyddio'r Rhyngrwyd yn yr ysgol yw codi safonau addysg, hyrwyddo cyrhaeddiad disgyblion, ategu gwaith proffesiynol y staff a gwella swyddogaethau rheoli'r ysgol.
- Mae defnyddio'r Rhyngrwyd yn rhan o'r cwricwlwm statudol ac yn offeryn angenrheidiol i ddysgu.
- Mae mynediad i'r Rhyngrwyd yn un o hawliau'r disgyblion sy'n dangos agwedd gyfrifol ac aeddfed tuag at ddefnyddio'r cyfrwng.
- Mae'r Rhyngrwyd yn elfen hanfodol ym mywyd yr unfed ganrif ar hugain ar gyfer addysg, busnes a chysylltiadau cymdeithasol. Mae'n ddyletswydd ar ysgolion i gynnig mynediad hwylus i ddisgyblion i'r Rhyngrwyd fel rhan o'u profiad dysgu.
- Mae disgyblion yn gwneud defnydd helaeth o'r Rhyngrwyd y tu allan i'r ysgol a bydd angen iddynt ddysgu sut i werthuso'r wybodaeth ar y we a chymryd gofal o'u diogelwch eu hunain.

Sut mae defnyddio'r Rhyngrwyd yn fanteisiol i addysg?

Ymhlith y buddiannau o ddefnyddio'r Rhyngrwyd mewn addysg mae'r canlynol:

- mynediad i adnoddau addysgol byd-eang gan gynnwys amgueddfeydd ac orielau celf;
- wedi'i gynnwys yn Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes Cymru sy'n cysylltu pob ysgol yng Nghymru;
- cyfnewidiadau addysgol a diwylliannol rhwng disgyblion ar draws y byd;
- defnydd galwedigaethol, cymdeithasol a hamdden mewn llyfrgelloedd, clybiau ac yn y cartref;
- mynediad i ddisgyblion a staff i arbenigedd mewn sawl maes;
- datblygiad proffesiynol i'r staff drwy fynediad i ddatblygiadau cenedlaethol, deunyddiau addysgol ac arferion effeithiol mewn cyflwyno'r cwricwlwm;
- cydweithredu ar draws y gwasanaethau ategol a chymdeithasau proffesiynol;
- gwell mynediad i gymorth technegol gan gynnwys rheoli rhwydweithiau o bell a diweddariadau awtomatig i systemau;

- cyfnewid data ar y cwricwlwm ac ar weinyddiaeth gyda'r Awdurdod a'r Cynulliad;
- mynediad i ddysgu ble bynnag a phryd bynnag y mae hynny'n gyfleus.

Sut all defnyddio'r Rhyngrwyd gyfoethogi dysgu?

- Bydd mynediad i'r Rhyngrwyd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer defnydd y disgyblion, a bydd yn cynnwys system hidlo sy'n briodol i oedran y disgyblion.
- Dylai staff roi arweiniad i ddisgyblion mewn gweithgareddau ar-lein fydd yn ategu'r canlyniadau dysgu a gynlluniwyd ar gyfer oedran ac aeddfedrwydd y disgyblion.
- Rhoddir cyfarwyddyd i'r disgyblion ynglŷn â pha ddefnydd o'r Rhyngrwyd sy'n dderbyniol a'r hyn sy'n annerbyniol, a rhoddir iddynt amcanion clir ar gyfer defnyddio'r Rhyngrwyd.

Sut fydd disgyblion yn dysgu sut i werthuso cynnwys y Rhyngrwyd?

- Mae'r ysgol yn sicrhau bod y deunyddiau a geir oddi ar y Rhyngrwyd a gaiff eu copïo neu eu defnyddio wedi hynny gan staff a disgyblion yn cydymffurfio â chyfraith hawlfraint.

Sut mae cynnal diogelwch systemau gwybodaeth?

- Mae diogelwch systemau gwybodaeth yr ysgol yn cael eu hadolygu yn gyson.
- Mae diogelwch rhag feirws yn cael ei ddiweddaru'n gyson.
- Mae strategaethau wrth gefn (gan gynnwys gofynion all-lein ac all-safle) yn cael eu hystyried a'u cyfateb i ofynion yr ysgol o adfer mewn trychineb.

Trafodir strategaethau diogelwch gyda Chyngor Sir Caerfyrddin lle bo hynny'n briodol.

Sut mae rheoli'r e-bost?

- Gall disgyblion ond defnyddio cyfrifon e-bost a gymeradwywyd o fewn yr ysgol.
- Rhaid i ddisgyblion ddweud wrth athro/athrawes yn ddi-oed os ydynt yn derbyn e-bost tramgwyddus.
- Rhaid i ddisgyblion beidio â datgelu manylion personol am eu hunain nac am eraill mewn neges e-bost, na threfnu i gyfarfod ag unrhyw un heb ganiatâd penodol.
- Dylid defnyddio cyfeiriadau e-bost dosbarth-cyfan neu grŵp, a safonir gan athro/athrawes, mewn ysgolion cynradd.

Sut mae rheoli cynnwys a gyhoeddir?

- Dylid rhoi cyfeiriad yr ysgol, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn yr ysgol fel y manylion cysylltu ar y wefan. Rhaid peidio â chyhoeddi gwybodaeth bersonol am y staff na'r disgyblion.
- Y pennaeth fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am olygu'r deunydd a sicrhau bod y cynnwys yn gywir ac yn briodol.

A ellir cyhoeddi lluniau neu waith y disgyblion?

- Bydd lluniau sy'n cynnwys disgyblion yn cael eu dewis yn ofalus. Ni ddylai testun sy'n mynd gyda'r lluniau alluogi adnabod disgyblion unigol.
- Ni ddefnyddir enwau disgyblion unrhyw le ar y wefan mewn cysylltiad â lluniau.
- Gofynnir am ganiatâd ysgrifenedig y rhieni yn gyntaf cyn cyhoeddi lluniau disgyblion ar y wefan.

Sut mae rheoli rhwydweithio cymdeithasol a chyhoeddi personol?

- Bydd yr ysgol yn blocio / hidlo mynediad i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. (Mae gwasanaeth hidlo Sir Gaerfyrddin yn blocio mynediad ar hyn o bryd i nifer fawr o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n gyfrifoldeb ar ysgolion i roi gwybod am unrhyw safleoedd ychwanegol y maent angen eu hidlo / blocio)
- Bydd fforymau amhriodol (megis Newsgroups) yn cael eu blocio.
- Cynghorir disgyblion i beidio byth â rhoi manylion personol o unrhyw fath a all roi gwybod pwy ydynt a / neu ble ydynt. Enghreifftiau yw enw iawn, cyfeiriad, rhif ffôn symudol neu ffôn tŷ, yr ysgol a fynychir, cyfeiriadau IM ac e-bost, enwau llawn ffrindiau, diddordebau penodol a chlybiau ac ati.

Sut mae rheoli hidlo?

- Mae'r ysgol yn gweithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, gan gymryd canllawiau Becta i ystyriaeth, i sicrhau bod systemau sy'n diogelu disgyblion yn cael eu hadolygu a'u gwella'n gyson.
- Os yw'r staff neu'r disgyblion yn darganfod safleoedd anaddas, rhaid rhoi'r URL i'r Cydgysylltydd e-Ddiogelwch a'i gyfeirio ymlaen i ddesg gymorth Gwasanaethau TG Sir Gaerfyrddin yn ddiymdroi i'w ddosbarthu i system pob ysgol.
- Bydd pob mynediad i'r Rhyngrwyd yn yr ysgol yn cael ei logio.
- Bydd y defnydd a wneir o'r Rhyngrwyd yn cael ei fonitro ar hap i sicrhau y cydymffurfir â pholisi'r ysgol.
- Wrth fonitro defnydd y Rhyngrwyd, byddai hyn yn galluogi'r ysgol i geisio cadw ein disgyblion yn ddiogel ac eu hatal rhag cael mynediad i ddeunydd anaddas (megis delweddau anweddus a materion radicaliaeth ac eithafiaeth)
- Mae pob mynediad i'r Rhyngrwyd yn yr ysgol yn cael ei hidlo. Mewn amgylchiadau prin, mae angen dilys i gamu dros y cyfyngiadau

technegol drwy ddefnyddio cysylltiad sydd heb ei hidlo. Bydd y pennaeth yn rhoi caniatâd yn bersonol bob tro y defnyddir y Rhyngrwyd heb ei hidlo, ac adolygu'r angen am gael mynediad yn gyson.

Sut mae rheoli fideo-gynadledda?

Y cyfarpar a'r rhwydwaith

- Dylai fideo-gynadledda IP ddefnyddio rhwydwaith Ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Defnyddwyr

- Dylai disgyblion ofyn am ganiatâd gan yr athro/athrawes goruchwylio cyn gwneud neu ateb galwad fideo-gynadledda.
- Dylid goruchwylio fideo-gynadledda yn briodol yn ôl oedran y disgyblion.

Cynnwys

- Mae fideo-gynadledda yn weithgaredd llawn her sy'n rhoi amrywiaeth eang o fuddiannau dysgu i'r disgyblion. Mae paratoi a gwerthuso yn hanfodol i'r gweithgaredd cyfan.

Sut ellir rheoli'r technolegau diweddaraf?

- Bydd technolegau diweddaraf yn cael eu harchwilio i weld beth yw'r budd addysgol, a gwneir asesiad risg cyn y caniateir eu defnyddio yn yr ysgol.

Sut mae diogelu data personol?

Cydymffurfir â'r wyth egwyddor sy'n ymwneud â data personol:

- *Gael ei brosesu yn deg ac yn gyfreithlon*
- *Cael ei brosesu at ddibenion penodol*
- *Bod yn ddigonol, yn berthnasol ac nid yn ormodol*
- *Bod yn gywir ac yn wybodaeth ddiweddaraf*
- *Peidio â chael ei gadw am hirach nag sydd raid*
- *Cael ei brosesu yn unol â hawliau unigolion*
- *Cael ei gadw yn ddiogel*
- *Cael ei drosglwyddo yn unig i wledydd eraill sydd â mesurau diogelwch addas.*

- Bydd data personol yn cael ei gofnodi, ei brosesu, ei drosglwyddo a'i roi ar gael yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

FFONAU SYMUDOL AR DIR YR YSGOL

Y mae ffonau symudol bellach yn nodwedd o gymdeithas fodern ac mae technoleg soffistigedig cynyddol y ffonau symudol hyn yn cyflwyno nifer o gymlethdodau i ysgolion:

• Gwerth ariannol uchel nifer helaeth o ffonau
• Camerau mewn ffonau sy'n gallu arwain i ddadleuon amddiffyn plant a gwarchod data.

• Y gallu i ddefnyddio ffôn i anfon neges destun pan mae'r offer mewn modd tawel.

Er mwyn cadw ein disgyblion yn ddiogel **NI CHANIATEIR** i ddisgyblion ddefnyddio ffonau symudol ar dir yr yr ysgol ar unrhyw adeg.

Argyfyngau

Petai disgybl eisiau cysylltu gyda rhiant neu warcheidwad fe ganiateir defnyddio ffôn y swyddfa yn rhad ac am ddim.

Petai rhiant neu warcheidwad angen cysylltu gyda disgybl ar frys gellir gwneud hynny drwy gyfrwng y swyddfa. Bydd staff y swyddfa yn anfon y neges ymlaen i'r disgybl.

Amgylchiadau arbennig

- Os oes amgylchiadau eithriadol, rhaid i'r rhiant gysylltu â'r pennaeth yn uniongyrchol ac ysgrifennu llythyr yn gofyn am ganiatâd/amlinellu'r rhesymau.
- Bydd yr ysgol yn cadw'r ffôn mewn man diogel yn ystod oriau arferol yr ysgol.
- Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am achosion o ddwyn, colli neu ddifrod i ffonau symudol.
- Cyfrifoldeb rhiant /gwarcheidwad yw gofalu fod yswiriant ar yr offer.

Penderfyniadau Polisi

Sut mae awdurdodi mynediad i'r Rhyngrwyd?

- Mae'r ysgol yn cadw cofnod cyfredol o bob aelod o staff a disgybl sydd â chaniatâd i gael mynediad i gysylltiadau electronig yr ysgol.
- Rhaid i bob aelod o staff ddarllen a llofnodi 'Polisi Defnydd Derbyniol y Staff' cyn defnyddio unrhyw un o adnoddau TGCh yr ysgol.
- Yng Nghyfnod Allweddol 1 a 2, bydd oedolyn yn cynorthwyo ac yn dangos sut i gael mynediad i'r Rhyngrwyd, a goruchwylir mynediad i ddeunyddiau ar-lein penodol a gymeradwywyd.
- Gofynnir i rieni lofnodi a dychwelyd ffurflen ganiatâd ar gyfer mynediad i ddisgyblion.

Sut mae asesu risg?

- Bydd yr ysgol yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael mynediad i ddeunydd priodol yn unig. Serch hynny, oherwydd natur fyd-eang a'r cysylltiadau drwy'r cynnwys sydd ar y Rhyngrwyd, nid yw'n bosibl gwarantu na fydd mynediad i ddeunydd anaddas byth yn digwydd drwy gyfrifiadur yr ysgol. Ni all yr ysgol na Chyngor Sir Caerfyrddin dderbyn atebolrwydd am y deunydd y cafwyd mynediad iddo, nac am unrhyw ganlyniadau fydd yn deillio o ddefnyddio'r Rhyngrwyd.
- Bydd yr ysgol yn archwilio'r defnydd a wneir o TGCh i weld a yw'r polisi e-ddiogelwch yn ddigonol a bod y polisi e-ddiogelwch yn cael ei weithredu'n briodol.

Sut mae ymdrin â chwynion am e-ddiogelwch?

- Uwch aelod o'r staff fydd yn ymdrin â chwynion am gamddefnyddio'r Rhyngrwyd.
- Rhaid cyfeirio unrhyw gwyn am staff yn camddefnyddio'r Rhyngrwyd at y pennaeth.
- Bydd disgyblion a rhieni yn cael gwybod am y weithdrefn gwneud cwyn.

Cyfathrebu

Sut mae cyflwyno'r polisi i'r disgyblion?

- Mae rheolau e-ddiogewlch yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd lle mae mynediad i'r Rhyngrwyd.
- Hysbysir disgyblion y bydd y defnydd a wneir o'r Rhyngrwyd yn cael ei fonitro.
- Cyflwynir rhaglen e-ddiogelwch i ennyn ymwybyddiaeth a phwysigrwydd defnyddio'r Rhyngrwyd yn ddiogel ac yn gyfrifol.
- Rhoddir canllawiau ar ddefnydd cyfrifol a diogel cyn caniatáu mynediad i'r Rhyngrwyd.
- Mae modiwl ar e-ddiogewlch yn cael ei gynnwys yn rhaglenni ABCh neu TGCh sy'n cwmpasu defnydd yn yr ysgol ac yn y cartref.

Sut mae trafod y polisi gyda'r staff?

- Mae pob aelod o staff wedi derbyn copi o Bolisi'r Ysgol ar e-Ddiogelwch ac yn derbyn eglurhad ar sut i weithredu'r polisi ac ar bwysigrwydd y polisi.

Sut mae cael cefnogaeth y rhieni?

Tynnir sylw'r rhieni at bolisi'r ysgol ar e-Ddiogelwch mewn llythyrau newyddion, llawlyfr yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

Fe rannwyd syniadau a chefnogaeth diogelu ar lein trwy ap yr ysgol